Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llandwrog
# Llandwrog
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL54 5ST

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llandwrog

Lleolir Ysgol Gynradd Llandwrog ym mhentref Llandwrog, tua chwe milltir i'r de o dref Caernarfon. Mae'n ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Gwynedd. Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan fydd yr ysgol yn un â chymeriad crefyddol. Yn hytrach, mae'n ofynnol i'r corff llywodraethol, yn ôl y gyfraith, drefnu bod addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.

Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 46 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 3 oed meithrin. Mae 2 dosbarth oed cymysg yn yr ysgol.

Tros dreigl tair blynedd, tua 7% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Mae tua 90% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 12% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sef 21%.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Medi 2011. Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2017. Mae ganddi gyfrifoldeb dros ysgol arall gyfagos ac mae'n rhannu ei hamser rhwng y ddwy ysgol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae staff yn creu amgylchedd groesawgar a chynhwysol yn yr ysgol, sy'n meithrin ethos dysgu cefnogol a gweithgar i'r disgyblion. Nodwedd arbennig yw'r ethos teuluol sy'n sicrhau bod y disgyblion a'r staff yn gofalu'n naturiol am ei gilydd. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hapus i'w mynychu, yn ymddwyn yn dda iawn ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Yn ystod eu cyfnod yno, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.

Mae'r athrawon yn darparu profiadau dysgu cyfoethog a diddorol i'w disgyblion, sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt. Mae naws Gymreig gryf iawn yn bodoli yn yr ysgol gyda'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ym mhob agwedd o'i gwaith a'i bywyd. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos balchder tuag at yr iaith a gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol sy'n rhoi cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Caiff gefnogaeth gref gan staff ymroddedig sy'n cydweithio'n dda fel tîm. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth drylwyr o'r ysgol ac maent yn defnyddio eu gwybodaeth yn bwrpasol i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am safonau.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu ac i weithio'n fwy annibynnol

A2 Sicrhau bod disgyblion yn fwy ymwybodol o beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith eu hunain

A3 Sicrhau cyfleoedd cyson a phriodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Mae medrau cyfathrebu rhan fwyaf y disgyblion yn gryf ar draws yr ysgol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn gwersi a sefyllfaoedd anffurfiol. Maent yn deall bod gwrando ar eraill yn cyfrannu'n bwysig at eu dysgu. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn sgwrsio'n huawdl am eu gwaith gan ddefnyddio geirfa eang a chywir, er enghraifft wrth drafod paratoi bwyd i'r adar. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfrannu'n effeithiol i drafodaethau dosbarth. Er enghraifft, maent yn egluro eu dewisiadau yn gryno ac aeddfed wrth drafod nodweddion taflen wybodaeth i ddenu ymwelwyr i Lanberis. Maent yn siarad yn aeddfed a deallus yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth drafod y gwaith yn eu llyfrau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd da yn gyson. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant ac yn trafod cynnwys eu llyfrau yn aeddfed. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ddeallus yn y ddwy iaith. Maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch yn gyson ac aeddfed i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Enghraifft dda o hyn yw gwaith y disgyblion hŷn wrth ddysgu am daith y Cymry i'r Wladfa.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarnhaol. Maent yn defnyddio geirfa ac iaith amrywiol yn gynyddol ym Mlwyddyn 1 a 2. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, maent yn ysgrifennu'n annibynnol, yn deall gwahanol arddulliau ysgrifennu'n dda ac yn ymestyn eu syniadau'n effeithiol, er enghraifft wrth gyflwyno sgript ar gyfer rhagolygon y tywydd. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus ac, erbyn diwedd y cyfnod, maent yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion ystod eang o ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu stori ysbryd neu wrth ysgrifennu llythyr at y cyngor i wrthwynebu'r bwriad i godi tâl am barcio yn Ninas Dinlle. Maent yn defnyddio idiomau a chymariaethau perthnasol yn effeithiol i gyfoethogi'u hysgrifennu, er enghraifft wrth greu sgript ddychmygol rhwng plant ysgol Capel Celyn yn sgil y penderfyniad i foddi Cwm Tryweryn. Er hyn, nid yw safon cyflwyniad a llawysgrifen ychydig o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ddigon taclus.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Erbyn Blwyddyn 2, mae ganddynt afael gadarn ar ffeithiau rhif a mesur ac yn eu defnyddio'n gywir wrth greu hetiau ar gyfer y parti diwedd blwyddyn. Maent yn casglu data am benblwyddi plant y dosbarth a'i arddangos yn llwyddiannus ar ffurf graff bar. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif, ac erbyn Blwyddyn 6, maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i ddatrys problemau, er enghraifft i

gyfrifo cost taith bws o Lanbedrog i Aberdaron. Maent yn gwneud defnydd priodol o'u medrau trin data wrth gymharu sut mae dau blanhigyn tomato yn tyfu, er enghraifft. Er hyn, nid ydynt bob amser yn defnyddio'u medrau rhifedd ar yr un lefel mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm ag y maent mewn gwersi mathemateg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob disgybl yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio llechi electronig yn effeithiol. Mae disgyblion Blwyddyn 2, er enghraifft, yn cofnodi eu gwaith yn yr ardal allanol yn electronig, er enghraifft wrth iddynt ymchwilio i'r lle gorau i roi dŵr i'r adar. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol i chwilio am wybodaeth ac yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus i gyflwyno'u canfyddiadau, ar effaith y diwydiant llechi ar yr ardal leol, er enghraifft. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i drin data wrth ddewis a chyfrifo cost offer addas ar gyfer eu taith i ben yr Wyddfa.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n gwbl ddiogel yno. Gwyddant at bwy i droi am gyngor petai rhywbeth yn eu poeni ac maent yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt yn brydlon. Mae bron pob un yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd a chaiff hyn ei adlewyrchu'n glir yn eu presenoldeb da a chyson. Maent yn siarad yn hyderus am eu hysgol a'u cymuned, yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio'n naturiol wrth sgwrsio gyda'i gilydd

Mae ymddygiad bron pob un disgybl mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda iawn. Maent yn barchus a chwrtais iawn tuag at staff, eu cymheiriaid ac ymwelwyr. Maent yn eithriadol o ofalgar o'i gilydd a gwelwyd enghraifft hyfryd o hyn wrth i'r disgyblion hŷn dywys y rhai iau yn ofalus i wasanaeth yn yr eglwys leol. Mae'r rhyngweithiad cadarnhaol a'r lefelau cryf o gydweithio ymhlith disgyblion o bob oedran, wrth weithio a chwarae, yn nodwedd gref yn yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymagweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig ac yn cadw ar dasg dros gyfnodau estynedig. Maent yn dangos cymhelliant yn eu gwaith, yn cydweithio'n gytûn ac yn ymroi i'w tasgau yn ddiwyd. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithiol sy'n bodoli o fewn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd cynyddol a gânt i feithrin a datblygu eu medrau dysgu drwy fabwysiadu strategaethau fel 'tri cyn fi'. Mae hyn yn eu helpu i ddeall bod gwneud camgymeriadau yn rhan naturiol o'r broses ddysgu a'u cymell i awgrymu ffyrdd gwahanol o ddatrys problemau i'w cyfoedion. Fodd bynnag, nid yw eu rôl wrth arwain eu dysgu eu hunain, i wneud penderfyniadau nac i fod yn ddysgwyr annibynnol wedi datblygu'n llawn. Ychydig o ddisgyblion sy'n gwybod sut i fynd ati i wella eu gwaith eu hunain yn annibynnol.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd ac yfed yn iach ac maent yn deall effaith ymarfer corff ar eu hiechyd. Maent yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn ystod o weithgareddau corfforol a drefnir gydag ysgol gyfagos, yn ogystal â'r clwb Dal i Fynd sy'n hybu eu datblygiad corfforol a'u ffitrwydd yn effeithiol.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd ac mae ymweliadau gan yr heddlu cymunedol yn atgyfnerthu hyn.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn ymwneud â'u gwaith yn frwdfrydig trwy amrywiaeth o weithgareddau. Trwy hyn, maent yn cyfrannu'n briodol at fywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft trwy ddewis offer ac adnoddau newydd i'r buarth. Mae hyn wedi ehangu cyfleoedd i ddisgyblion gyd-chwarae adeg egwyl. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfle i gefnogi elusennau amrywiol fel Cymorth Christnogol ac i gyfrannu at weithgareddau yn y gymuned ac mewn gwasanaethau yn yr eglwys. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae gan yr holl staff berthynas waith effeithiol â'r disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda, ac yn darparu cefnogaeth effeithiol iddynt dra'u bod yn gweithio, a rhyngweithio gyda'u cymheiriaid. Mae'r parch sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r oedolion yn nodwedd bwysig o waith yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli, â'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar coeth. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus.

Mae gan yr ysgol gwricwlwm diddorol sy'n datblygu medrau disgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu yn effeithiol. Mae athrawon yn darparu ystod amrywiol o brofiadau dysgu gwerthfawr i'w disgyblion, sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt yn llwyddiannus. Mae themâu trawsgwricwlaidd a rhaglenni gwaith diddorol yn ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda ac yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn effeithiol. Yn ddiweddar, mae athrawon wedi dechrau addasu'r cwricwlwm i fodloni dibenion y cwricwlwm newydd i Gymru trwy gynnig cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion wneud penderfyniadau mewn perthynas â'u gwaith. Mae pwyslais clir ar ddatblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar Gymru a'r etifeddiaeth Gymreig. Mae athrawon yn darparu ystod o brofiadau gwerthfawr i'r disgyblion, sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol yn llwyddiannus. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddysgu am yr ardal leol. Enghraifft dda o hyn yw gwaith disgyblion ar effaith y diwydiant llechi ar yr ardal. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at eu dealltwriaeth o'u hardal leol, eu hanes a'u diwylliant. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu hetifeddiaeth a'u Cymreictod.

Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn defnyddio'r wybodaeth yn llwyddiannus i arwain sesiynau dysgu'n effeithiol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel a, gan amlaf, maent yn cysylltu eu gwersi'n effeithiol â dysgu blaenorol. Mae cydweithio pwrpasol rhwng athrawon a chymorthyddion yn darparu cefnogaeth dda i alluogi disgyblion i gwblhau eu tasgau ac elwa ohonynt yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol ac yn cyflawni'n dda. Yn gyffredinol, mae cydbwysedd da rhwng profiadau

sy'n cael eu harwain gan oedolion a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Serch hynny, mae tueddiad ar adegau i athrawon arwain gormod ar y gweithgareddau, ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Mae hyn hefyd yn cyfyngu ar lefel yr her, yn enwedig i'r disgyblion o allu uwch.

Mae athrawon yn y ddau gyfnod allweddol yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. Mae'r cynllunio yn drefnus ac yn helpu athrawon i greu tasgau diddorol sy'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol y disgyblion. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd cynhwysfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg a Saesneg ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trosglwyddo a chymhwyso'r medrau hyn yn hyderus. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd i'r un graddau ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh ac i gymhwyso'r medrau hyn yn rheolaidd ar draws y cwricwlwm.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau'r defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Mae athrawon yn cynnig adborth gwerthfawr i'r disgyblion yn ystod gwersi ac yn eu hannog i ddyfalbarhau a myfyrio ymhellach ar sut i wella eu gwaith. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith eu hunain ac ar waith eu cyfoedion. Fodd bynnag, anghyson yw'r cyfle i ddisgyblion arwain a gwella eu gwaith eu hunain.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a theuluol sy'n hyrwyddo pwysigrwydd Cymreictod, cwrteisi a pharch yn hynod effeithiol. Mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn nodwedd arbennig o'r ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at yr agweddau cadarnhaol sydd gan y disgyblion at eu gwaith ac at naws gynhwysol yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Ceir ymdeimlad o dîm, gyda phob aelod o staff yn meddu ar ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad, ymdrech a lles disgyblion. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad da a chwrteisi bron pob un disgybl a'u hymagwedd gadarnhaol at ddysgu ac at eu hysgol.

Mae'r pwyslais ar hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn gryfder ac yn ennyn balchder y disgyblion yn eu diwylliant, a'u hetifeddiaeth. O ganlyniad, Cymraeg yw'r iaith mae'r rhan fwyaf y disgyblion yn dewis ei siarad, o fewn a thu allan i'w dosbarthiadau. Darperir nifer fawr o ddigwyddiadau ac ymweliadau cyfoethog i'r disgyblion, sy'n hybu eu dealltwriaeth o'u diwylliant a'u cymuned yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion yn nodwedd gref o fywyd yr ysgol. Trwy gyfleoedd i gystadlu'n llwyddiannus mewn eisteddfodau a pherfformio mewn cyngherddau yn yr ardal leol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau mynegiannol yn llwyddiannus iawn. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddatblygu profiadau creadigol disgyblion, trwy wahodd beirdd, cerddorion, awduron ac actorion i gydweithio â nhw. Enghraifft dda o hyn yw ymweliad cwmni dawns i ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion feithrin medrau perfformio. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hunanhyder llawer o'r disgyblion a'u gallu i gydweithio'n effeithiol.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn gadarn. Mae hyn yn galluogi'r staff i adnabod anghenion ychwanegol disgyblion yn gynnar a darparu ar eu cyfer yn effeithiol. Mae athrawon yn creu cynlluniau addysg unigol manwl i bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cymorthyddion yn gweithio'n fedrus a chydwybodol i weithredu ystod eang o raglenni ymyrraeth pwrpasol. Mae eu gwybodaeth fanwl am dargedau disgyblion a strategaethau pwrpasol i'w cefnogi yn nodwedd gref. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu'n gyson ar y cyd â'r disgyblion a'u rhieni a'u haddasu yn ôl y galw. Mae'r staff yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion penodol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion gydag anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn seiliedig ar ei pholisi drws agored. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni'n gallu codi unrhyw bryderon yn amserol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd iddynt drafod cynnydd a thargedau datblygiad eu plant ac i atgyfnerthu'r hyn y gallant ei wneud i gefnogi eu plant â'u gwaith. O ganlyniad, mae'r rhieni yn teimlo'n rhan o'r ysgol. Amlygir hyn ym mharodrwydd rhieni i hyfforddi disgyblion ar gyfer cystadlu'n llwyddiannus mewn eisteddfodau ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Mae'r ysgol yn elwa o gyfraniadau sylweddol gan y gymdeithas ffrindiau'r ysgol sy'n cyfoethogi profiadau disgyblion, er enghraifft trwy godi arian i ddatblygu'r ardal allanol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, yn ogystal â chadw'n heini. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth disgyblion o faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol sy'n sicrhau bod cyfeiriad strategol clir i'r ysgol ac yn hybu cymuned glòs a chynhwysol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth eglur sy'n seiliedig ar sicrhau amrediad o brofiadau dysgu cyfoethog ar gyfer y disgyblion mewn awyrgylch hapus a chefnogol. Mae hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn flaenoriaeth iddi ac mae'n ganolog i holl waith yr ysgol. Mae'r pennaeth yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r disgyblion, y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni i weithredu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus.

Mae aelodau'r staff yn cydweithio'n effeithiol gan gyflawni eu rolau yn llwyddiannus a chefnogi'r pennaeth yn gydwybodol. Mae athrawon yn cyfarfod yn ffurfiol ac yn anffurfiol yn rheolaidd i drafod cynnydd ac amcanion gwella yn bwrpasol. Mae hyn yn sicrhau bod systemau'r ysgol o ddydd i ddydd yn gweithio'n dda ac yn rhoi ffocws clir i waith yr holl staff. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy. Adlewyrchir hyn ym mharodrwydd athrawon i gydweithio â staff yr ysgol arall sydd o dan ofal y pennaeth. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n gadarn ar safonau a blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae hefyd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i rannu arfer dda ac yn gymorth llwyddiannus i leihau baich gwaith athrawon.

Mae diwylliant ac ethos cryf o gefnogi dysgu proffesiynol staff yn bodoli yn yr ysgol. Mae'r athrawon yn frwdfrydig wrth fynd i'r afael â datblygiadau diweddar ym maes addysg, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a chyflwyno'r

fframwaith cymhwysedd digidol. Mae'r pennaeth yn darparu cyfleoedd da i bob aelod o staff wella eu harfer a chodi safonau. Mae hyn, er enghraifft, wedi arwain at welliant ym medrau TGCh disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso yn greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol gyda ffocws clir ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r broses yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol ynglŷn â chyflawniad disgyblion, sy'n cynnwys arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a chynnal teithiau dysgu. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod gan yr holl staff rôl weithredol yn y broses. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r pennaeth yn darparu cyfleoedd buddiol i ganfod ac ymateb i farn disgyblion a rhieni wrth adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol yn deillio'n uniongyrchol o'r dystiolaeth a gasglwyd o'r gweithdrefnau hunanwerthuso ac yn canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae gallu'r ysgol i gynllunio a sicrhau gwelliant yn amlwg wrth ystyried y cynnydd a wneir gan ran fwyaf y disgyblion.

Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol ar gyfer datblygu medrau athrawon a chymorthyddion yn seiliedig yn gadarn ar flaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau'r ysgol. O ganlyniad, mae staff yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu'n broffesiynol ac yn cyfrannu'n effeithiol at welliannau i'r addysgu a'r dysgu, er enghraifft wrth wella'r ddarpariaeth tu allan ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen. Yn ddiweddar, mae'r pennaeth wedi sicrhau hyfforddiant gwerthfawr i athrawon a disgyblion ar agweddau o TGCh er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Mae'r corff llywodraethol yn ymroddgar ac yn gefnogol i'r ysgol. Trwy gydweithio â'r staff, arsylwi ar wersi a thrafod enghreifftiau o waith gyda'r disgyblion, maent yn chwarae rôl weithredol ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol. Mae hyn, ynghyd â derbyn adroddiadau pwrpasol y pennaeth, yn arwain at ddealltwriaeth drylwyr o gryfderau'r ddarpariaeth a'r meysydd i'w gwella. O ganlyniad, mae rôl strategol y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol yn datblygu'n llwyddiannus ac yn eu galluogi i herio'r ysgol am ei pherfformiad yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithiol er mwyn darparu profiadau dysgu amrywiol a chyfoethog i'w disgyblion. Maent yn neilltuo cyllid yn briodol i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol ac yn monitro gwariant yn ofalus. Mae'r ysgol yn elwa o gyfraniadau ariannol gan y gymdeithas rieni ar gyfer prynu adnoddau fel cyfarpar TGCh, sy'n llwyddo i ehangu cyfleoedd i ymateb i ofynion y fframwaith cymhwysedd digidol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/09/2019